Papur 4

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gwir Anrh Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

llywydd@senedd.wales

18 Hydref 2022

Annwyl Elin,

Byddwch yn ymwybodol o Fil Prisiau Ynni y DU (y Bil), sy'n cynnwys darpariaeth berthnasol y mae angen cydsyniad y Senedd iddi.

Cafodd y Bil ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Hydref 2022 ond ni chawsom ei weld tan y noson cynt. Cafodd holl gamau Tŷ'r Cyffredin eu cynnal ar 17 Hydref ac ni chyflwynwyd unrhyw welliannau i'r Bil. Disgwylir y bydd holl gamau Tŷ'r Arglwyddi yn digwydd ar 24 Hydref ac y bydd y Bil yn cael y Cydsyniad Brenhinol ar 25 Hydref. Er i sylwadau gael eu cyflwyno i Lywodraeth y DU er mwyn ceisio estyn yr amserlen, mae'r cyfnod sydd ar gael i gwblhau'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn hynod o fyr, felly. Bydd y prinder amser sydd ar gael i'r Senedd graffu arno, oherwydd amserlen Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r ffaith na rannwyd y Bil ymlaen llaw, yn cael ei godi eto gyda Llywodraeth y DU.

Er mwyn rhoi cyfle i'r Senedd drafod a phleidleisio ar gydsynio i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil, rydym yn bwriadu cynnal Dadl ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ddydd Mercher 19 Hydref. Bydd ein Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei osod heddiw, yn argymell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil. Yn dilyn hynny fe gyflwynir y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Er mwyn caniatáu i'r ddadl gael ei chynnal ar 19 Hydref, bydd gofyn atal Rheolau Sefydlog wrth i'n cynnig cydsyniad deddfwriaethol gael ei osod. Mae'n bosibl y bydd angen cyflwyno'r cynigion o fewn amserlen sy'n llai na'r un diwrnod gwaith sy'n ofynnol cyn y ddadl arfaethedig. O ganlyniad, yn unol â Rheol Sefydlog 33.8 rydym yn ceisio eich cytundeb ymlaen llaw i gyflwyno'r cynigion hyn. Pan fo hynny'n bosibl, byddem bob amser yn ceisio rhoi cymaint o rybudd ffurfiol ag y bo modd i'r Senedd ynglŷn â dadl a byddem yn dymuno osgoi atal Rheolau Sefydlog. Fodd bynnag, yn achos y Bil hwn, ac yn sgil yr amserlen a osodwyd gan Lywodraeth y DU, rydym o'r farn ei bod yn bwysig bod y Senedd yn cael lleisio'i barn o ystyried yr effaith sylweddol y bydd darpariaethau'r Bil yn ei chael ar Gymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at bob un o Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd ac at holl Aelodau'r Senedd.

Yn gywir,

Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd